
GRŴP

# Antur Meddwl

## Sut mae denu Macsen o'r tŷ i gael awyr iach?



Mae bachgen o'r enw Macsen yn rhy hoff o aros yn y tŷ o hyd.
Ei unig ddiddordeb yn y byd yw 'ROBLOX', 'Adopt Me' a 'Brookhaven'.
Mae ffrind Macsen, Grug yn ceisio ei berswadio i fynd efo hi am dro i ben Moel Tryfan.

**Sut fath o bethau y buasai Grug yn medru eu dweud wrth Macsen i'w gael allan o'r tŷ ac i'r copa?**

Meddyliwch am y teimladau braf a'r profiadau hapus y byddwch chi'n eu profi wrth fod allan yn yr awyr agored.

Meddyliwch am y ffordd rydych chi'n teimlo wrth fynd am dro.

Pa effaith mae cerdded mynydd yn ei gael ar y corff?
Pa olygfeydd sydd i'w gweld o ben Moel Tryfan.
Pa ddillad ac offer fydd angen i fynd am dro efo Grug?


TYRD MACSEN!

MYNYDDOEDD

ⓗ Karen MacIntyre Huws

# Antur Meddwl

Torrwch gymylau efo siswrn. Ysgrifennwch eich syniadau yn y cymylau, cyn eu gludo ar y papur mawr hir fel hyn:




Offer:
Siswrn, pensil, pensiliau lliw a glud. 3 darn o gerdyn A4.

**Gwaith grŵp yw hwn.**
O leiaf un cwmwl bob un.

AWÊ!

MYNYDDOEDD

Karen MacIntyre Huws